*Statws* This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2011 No. 925

## Rheoliadau Trwyddedu Morol (Apelau yn Erbyn Penderfyniadau Trwyddedu ) (Cymru) 2011

## RHAN 7

Darpariaethau atodol

**Methiant i weithredu**

**23.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan fo'r apelydd neu'r Awdurdod Trwyddedu wedi methu, o fewn y terfynau amser perthnasol, â chymryd unrhyw gam neu ddarparu unrhyw wybodaeth, sy'n ofynnol o dan y Rheoliadau hyn.

(2) Caiff y person penodedig, ar ôl rhoi rhybudd i'r apelydd ac i'r Awdurdod Trwyddedu o'i fwriad i wneud hynny, benderfynu apêl, er gwaethaf y methiant i gymryd y cam hwnnw neu ddarparu'r wybodaeth honno.

**Cyflenwi dogfennau etc**

**24.**—(1) Rhaid i unrhyw beth y mae'n ofynnol, neu y caniateir, ei gyflenwi o dan y Rheoliadau hyn (gan gynnwys unrhyw sylwadau a wneir) fod mewn ysgrifen .

(2) Os yw dogfen a gyflenwir yn cyfeirio at ddogfen arall, rhaid cyflenwi copi o'r ddogfen honno yn ogystal.

(3) Ceir cyflenwi yn electronig unrhyw beth y mae'n ofynnol, neu y caniateir, ei gyflenwi o dan y Rheoliadau hyn—

(a) os gall y derbynnydd gael mynediad iddo;

(b) os yw'r wybodaeth a gynhwysir ynddo ar gael i'r derbynnydd i'r un graddau, o leiaf, ag y byddai, pe bai'r wybodaeth wedi ei chyflwyno mewn ffurf brintiedig;

(c) os yw'n ddigon parhaol i'w ddefnyddio i gyfeirio ato yn ddiweddarach; ac

(ch) os yw'r derbynnydd yn cydsynio iddo gael ei gyflenwi yn electronig.

(4) Rhaid i'r dogfennau a chopïau —

(a) a gyflenwir gan yr apelydd a'r Awdurdod Trwyddedu gael eu cyflenwi'n ddyblyg;

(b) a gyflenwir gan unrhyw berson arall, gael eu cyflenwi'n driphlyg

(5) Ond nid yw paragraff (4) yn gymwys i ddogfen neu gopi—

(a) y mae'n ofynnol ei chyflwyno, neu ei gyflwyno, ynghyd â hysbysiad apêl o dan reoliad 7(1)(ch) a (2), neu

(b) a gyflenwir yn electronig.

(6) Os oes unrhyw ddogfen wedi ei chyflenwi eisoes at ddibenion apêl, a'r ddogfen honno ar gael yn hwylus i'r holl bartïon, caiff y person penodedig gyfarwyddo nad oes rhaid ei chyflenwi drachefn.

**Estyn terfynau amser perthnasol, a darparu gwybodaeth neu gopïau ychwanegol**

**25.**—(1) Caiff y person penodedig, ar unrhyw adeg, mewn amgylchiadau eithriadol, estyn unrhyw derfyn amser.

(2) Caiff y person penodedig ar unrhyw adeg—

(a) gwneud yn ofynnol gyfnewid gwybodaeth bellach,

(b) cynnig cyfleoedd pellach i wneud sylwadau,

(c) gwneud yn ofynnol fod unrhyw berson yn darparu gwybodaeth bellach sy'n berthnasol i'r apêl, neu gopïau ychwanegol o unrhyw ddogfen,

os yw'r person penodedig o'r farn bod hynny'n angenrheidiol er mwyn penderfynu'r apêl.

(3) Rhaid i berson sydd dan ofyniad i wneud sylwadau pellach, neu y cynigir cyfle iddo wneud hynny, o dan baragraff (2), gydymffurfio ag unrhyw derfyn amser a bennir gan y person penodedig.